



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

2022 Rhif 799 (Cy. 176)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi  
(Cymru) 2016 (Tenantiaethau  
Cymdeithas Dai: Darpariaethau  
Sylfaenol) 2022

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Pennod 3 o Ran 2 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) ("Deddf 2016") yn cyflwyno'r cysyniad o ddarpariaethau sylfaenol sef:

- (a) darpariaethau Deddf 2016; a
- (b) darpariaethau eraill sy'n ddarpariaethau sylfaenol yn rhinwedd adran 22(1)(a) o Ddeddf 2016,

a ymgorfforir fel telerau contractau meddiannaeth neu fel telerau mathau neu ddisgrifiadau penodol o gcontractau meddiannaeth (yn ddarostyngedig i adrannau 20(1) a (2) ac 21 o Ddeddf 2016) ac sydd felly'n ffurfio rhan o'r contract rhwng deiliad contract a landlord.

Unwaith y mae darpariaeth sylfaenol wedi ei chynnwys mewn contract meddiannaeth, cyfeirir ati fel "teler sylfaenol" o'r contract.

Mae adran 20 o Ddeddf 2016 yn caniatáu i landlordiaid a deiliaid contract gytuno i beidio ag ymgorffori darpariaethau sylfaenol mewn contract meddiannaeth (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol). Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i'r prawf y byddai peidio ag ymgorffori'r teler yn gwella sefyllfa deiliad y contract. Mae landlordiaid a deiliaid contract hefyd yn gallu addasu darpariaethau sylfaenol, drwy gytundeb, ar yr amod y byddai'r addasiad yn gwella sefyllfa deiliad y contract (eto, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol).

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

2022 No. 799 (W. 176)

HOUSING, WALES

The Renting Homes (Wales) Act  
2016 (Housing Association  
Tenancies: Fundamental  
Provisions) Regulations 2022

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

Chapter 3 of Part 2 of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1) ("the 2016 Act") introduces the concept of fundamental provisions which are:

- (a) provisions of the 2016 Act; and
- (b) other provisions which are fundamental provisions by virtue of section 22(1)(a) of the 2016 Act,

that are incorporated as terms of occupation contracts or particular kinds or descriptions of occupation contract (subject to sections 20(1) and (2) and 21 of the 2016 Act) and so form part of the contract between a contract-holder and a landlord.

Once a fundamental provision is included in an occupation contract, it is referred to as a "fundamental term" of the contract.

Section 20 of the 2016 Act allows landlords and contract-holders to agree not to incorporate fundamental provisions into an occupation contract (subject to certain exceptions). However, this is subject to the test that non-incorporation of the term would improve the position of the contract-holder. Landlords and contract-holders are also able, by agreement, to modify fundamental provisions, provided that the modification would improve the position of the contract-holder (again, subject to certain exceptions).

Mae adran 22(1) o Ddeddf 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n penu bod unrhyw ddarpariaeth o unrhyw ddeddfiad yn ddarpariaeth sylfaenol, neu nad yw'n ddarpariaeth sylfaenol, sy'n gymwys i contract meddiannaeth.

Mae rheoliadau 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn yn darparu nad yw adrannau 104 (contractau diogel: amrywio'r rhent) a 123 (contractau safonol cyfnodol: amrywio'r rhent) o Ddeddf 2016 yn ddarpariaethau sylfaenol o gontactau meddiannaeth sy'n denantiaethau cymdeithas dai (o fewn yr ystyr a roddir i "housing association tenancy" gan Ran 6 o Ddeddf Rhenti 1977 ("Deddf 1977")).

Mae rheoliad 5 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adrannau 104, 123, 252 (mân ddiffiniadau) a 253 (mynegai) o Ddeddf 2016 ac Atodlen 1 (trosolwg o ddarpariaethau sylfaenol a ymgorffor fel telerau contractau meddiannaeth) ac Atodlen 12 (trosi tenantiaethau a thrwyddedau presennol sy'n bodoli cyn i Bennod 3 o Ran 10 ddod i rym) i Ddeddf 2016.

Mae rheoliad 6 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 93 o Ddeddf 1977 (cynyddu'r rhent heb rybudd i ymadael) ac yn mewnosod is-adrannau newydd (2A), (2B) a (2C). Mae is-adran (2A) yn darparu, pan fo tenantiaeth cymdeithas dai yn gontact diogel neu'n gontact safonol cyfnodol, y caniateir cynyddu'r rhent sy'n daladwy i'r landlord (sef cymdeithas dai, ymddiriedolaeth dai neu Weinidogion Cymru) o ddechrau unrhyw gyfnod rhent drwy hysbysiad ysgrifenedig sy'n penu'r dyddiad y bydd y cynnydd yn cael effaith ac a roddir gan y landlord i ddeiliad y contract ddim llai na phedair wythnos cyn y dyddiad hwnnw. Mae is-adran newydd (2B) yn darparu nad yw hysbysiad o gynnydd yn cael effaith os yw deiliad y contract yn rhoi hysbysiad i derfynu'r contract cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad. Mae is-adran newydd (2C) yn darparu ymhellach y bydd yr hysbysiad o'r cynnydd yn cael effaith os yw'r hysbysiad i derfynu'r contract yn peidio â chael effaith o dan adran 167(3) neu 172(3) o Ddeddf 2016 cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenreidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Section 22(1) of the 2016 Act enables the Welsh Ministers to make regulations which specify that any provision of any enactment is, or is not, a fundamental provision applicable to an occupation contract.

Regulations 3 and 4 of these Regulations provide that sections 104 (secure contracts: variation of rent) and 123 (periodic standard contracts: variations of rent) of the 2016 Act are not fundamental provisions of occupation contracts that are housing association tenancies (within the meaning given by Part 6 of the Rent Act 1977 ("the 1977 Act")).

Regulation 5 makes consequential amendments to sections 104, 123, 252 (minor definitions) and 253 (index of terms) of and Schedule 1 (overview of fundamental provisions incorporated as terms of occupation contracts) and Schedule 12 (conversion of tenancies and licences existing before commencement of Chapter 3 of Part 10) to the 2016 Act.

Regulation 6 makes consequential amendments to section 93 of the 1977 Act (increase in rent without notice to quit) and inserts a new subsections (2A), (2B) and (2C). Subsection (2A) provides that where a housing association tenancy is a secure or periodic standard contract, the rent payable to the landlord (meaning a housing association, housing trust or the Welsh Ministers) may be increased, from the beginning of any rental period, by a written notice specifying the date on which the increase is to take effect and given by the landlord to the contract-holder not later than four weeks before that date. New subsection (2B) provides that a notice of increase does not take effect if, before the date specified in the notice, the contract-holder gives notice to end the contract. New subsection (2C) further provides that the notice of increase will take effect if, before the date specified in that notice, the notice to end the contract ceases to have effect under section 167(3) or 172(3) of the 2016 Act.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2022 Rhif 799 (Cy. 176)**

**TAI, CYMRU**

Rheoliadau Ddeddf Rhentu Cartrefi  
(Cymru) 2016 (Tenantiaethau  
Cymdeithas Dai: Darpariaethau  
Sylfaenol) 2022

Gwnaed

13 Gorffennaf 2022

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 22(1)(b)(1) a 256(1) a (2)(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(3).

Yn unol ag adrannau 256(3) a 256(4)(b)(4) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithas Dai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022 a deuant i rym ar y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym.

**Dehongli**

2.—(1) Mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

- (1) Diwygiwyd adran 22 gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) Cymru 2021 (dsc 3) a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 6 iddi.
- (2) Diwygiwyd is-adran 256(2) gan adrannau 14 a 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) Cymru 2021 (dsc 3) a pharagraffau 1 ac 21 o Atodlen 6 iddi.
- (3) 2016 dccc 1.
- (4) Mae diwygiadau eraill i adran 256(4) nad yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**2022 No. 799 (W. 176)**

**HOUSING, WALES**

The Renting Homes (Wales) Act  
2016 (Housing Association  
Tenancies: Fundamental  
Provisions) Regulations 2022

*Made*

13 July 2022

*Coming into force in accordance with  
regulation 1*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 22(1)(b)(1) and 256(1) and (2)(2) of the Renting Homes (Wales) Act 2016(3).

In accordance with sections 256(3) and 256(4)(b)(4) of that Act, a draft of these Regulations has been laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru.

**Title and commencement**

1. The title of these Regulations is the Renting Homes (Wales) Act 2016 (Housing Association Tenancies: Fundamental Provisions) Regulations 2022 and they come into force on the day on which section 239 of the Act comes into force.

**Interpretation**

2.—(1) Words and expressions used in these Regulations have the same meaning as they have in the Act.

(2) In these Regulations—

- (1) Section 22 was amended by section 18 of and paragraphs 1 and 3 of Schedule 6 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021 (asc 3).
- (2) Subsection 256(2) was amended by sections 14 and 18 of and paragraphs 1 and 21 of Schedule 6 to the Renting Homes (Amendment) (Wales) Act 2021 (asc 3).
- (3) 2016 anaw 1.
- (4) There are amendments to section 256(4), none of which is relevant to these Regulations.

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016;

mae i “tenantiaeth cymdeithas dai” yr un ystyr â “housing association tenancy” yn Rhan 6 o Ddeddf Rhenti 1977(1) (gweler adran 86(2) o’r Ddeddf honno).

### Nid yw adrannau 104 a 123 o’r Ddeddf yn ddarpariaethau sylfaenol o gcontractau meddiannaeth sy’n denantiaethau cymdeithas dai

3. Nid yw adran 104 o’r Ddeddf (contractau diogel: amrywio’r rhent) yn ddarpariaeth sylfaenol sy’n gymwys i gcontract diogel sy’n denantiaeth cymdeithas dai.

4. Nid yw adran 123 o’r Ddeddf (contractau safonol cyfnodol: amrywio’r rhent) yn ddarpariaeth sylfaenol sy’n gymwys i gcontract safonol cyfnodol sy’n denantiaeth cymdeithas dai.

### Diwygiadau canlyniadol i’r Ddeddf

5.—(1) Mae’r Ddeddf wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 104, ar ddiwedd is-adran (4) mewnosoder “, ac eithrio contract diogel sy’n denantiaeth cymdeithas dai”.

(3) Yn adran 123, ar ddiwedd is-adran (4) mewnosoder “, ac eithrio contract safonol cyfnodol sy’n denantiaeth cymdeithas dai”.

(4) Yn adran 252 (mân ddiffiniadau), yn y lle priodol mewnosoder—

“mae i “tenantiaeth cymdeithas dai” yr un ystyr â “housing association tenancy” yn Rhan 6 o Ddeddf Rhenti 1977 (p. 42) (gweler adran 86 o’r Ddeddf honno);”.

(5) Yn adran 253 (mynegai), yn nhabl 2, ar ôl y cofnod ar gyfer “tenantiaeth”, yn y golofn chwith mewnosoder “tenantiaeth cymdeithas dai” ac yn y golofn dde mewnosoder “adran 252”.

(6) Yn Atodlen 1 (trosolwg o ddarpariaethau sylfaenol a ymgorfforir fel telerau contractau meddiannaeth)—

(a) yn Rhan 1 (contractau diogel), yn y cofnod yn nhabl 3 ar gyfer adrannau 103 i 109, yn y drydedd golofn (nodiadau), ar ôl “oddi tanynt”, yn y lle cyntaf y mae’n ymddangos,

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Renting Homes (Wales) Act 2016;

“housing association tenancy” (“*tenantiaeth cymdeithas dai*”) has the same meaning as in Part 6 of the Rent Act 1977(1) (see section 86(2) of that Act).

### Sections 104 and 123 of the Act not fundamental provisions of occupation contracts that are housing association tenancies

3. Section 104 of the Act (secure contracts: variation of rent) is not a fundamental provision applicable to a secure contract which is a housing association tenancy.

4. Section 123 of the Act (periodic standard contracts: variation of rent) is not a fundamental provision applicable to a periodic standard contract which is a housing association tenancy.

### Consequential amendments to the Act

5.—(1) The Act is amended as follows.

(2) In section 104, at the end of subsection (4) insert “, except a secure contract which is a housing association tenancy”.

(3) In section 123, at the end of subsection (4) insert “, except a periodic standard contract which is a housing association tenancy”.

(4) In section 252 (minor definitions), in the appropriate place insert—

“housing association tenancy” (“*tenantiaeth cymdeithas dai*”) has the same meaning as in Part 6 of the Rent Act 1977 (c. 42) (see section 86 of that Act);”.

(5) In section 253 (index of terms), in table 2, after the entry for “housing association”, in the left hand column insert “housing association tenancy” and in the right hand column, insert “section 252”.

(6) In Schedule 1 (overview of fundamental provisions incorporated as terms of occupation contracts)—

(a) in Part 1 (secure contracts), in the entry in table 3 for sections 103 to 109, in the third column (notes), after “rent is payable”, in the first place where it appears, insert “and which

(1) 1977 p. 42.

(2) Diwygiwyd adran 86 gan adrannau 77 a 152 o Ddeddf Tai 1980 (p. 51) ac Atodleni 10 a 26 iddi, adran 4 o Ddeddf Tai (Darpariaethau Canlyniadol) 1985 (p. 71) a pharagraff 35 o Atodlen 2 iddi, erthygl 2 o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Tai) (Diwygiadau 1999 (O.S. 1999/61) a pharagraff 1 o’r Atodlen iddo ac erthygl 5 o Orchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol) 2010 (O.S. 2010/866) a pharagraffau 9 ac 11 o Atodlen 2 iddo.

(1) 1977 c. 42.

(2) Section 86 was amended by sections 77 and 152 of and Schedules 10 and 26 to the Housing Act 1980 (c. 51), section 4 of and paragraph 35 of Schedule 2 to the Housing (Consequential Provisions) Act 1985 (c. 71), article 2 of and paragraph 1 of the Schedule to the Government of Wales Act 1998 (Housing) (Amendments) Order 1999 (S.I. 1999/61) and article 5 of and paragraphs 9 and 11 of Schedule 2 to the Housing and Regeneration Act 2008 (Consequential Provisions) Order 2010 (S.I. 2010/866).

mewnosoder “ac nad ydynt yn denantiaethau cymdeithas dai (o ran hynny, gweler adran 93 o Ddeddf Rhenti 1977 (p. 42))”;

- (b) yn Rhan 2 (contractau safonol cyfnodol), yn y cofnod yn nhabl 4 ar gyfer adrannau 122 i 128, yn y drydedd golofn (nodiadau), ar ôl “oddi tanynt”, yn y lle cyntaf y mae’n ymddangos, mewnosoder “ac nad ydynt yn denantiaethau cymdeithas dai (o ran hynny, gweler adran 93 o Ddeddf Rhenti 1977 (p. 42))”.

(7) Yn Atodlen 12 (trosi tenantiaethau a thrwyddedau presennol sy’n bodoli cyn i Bennod 3 o Ran 10 ddod i rym), ym mharagraff 14(2)—

- (a) ar ôl “yn gymwys i” mewnosoder “—  
(a)”;  
(b) ar ôl “rhent” mewnosoder “, na  
(b) cynnydd mewn rhent o dan adran 93 o Ddeddf Rhenti 1977 (p. 42).”.

### Diwygiadau canlyniadol i adran 93 o Ddeddf Rhenti 1977

6.—(1) Mae adran 93(1) o Ddeddf Rhenti 1977 (cynnyddu’r rhent heb rybudd i ymadael) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)—

- (a) ar ôl “weekly or other periodical tenancy” mewnosoder “but not an occupation contract”;  
(b) yn lle “in this section” rhodder “in this subsection and subsection (2)”.

(3) Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(2A) Where a housing association tenancy is a secure contract or a periodic standard contract, the rent payable to the housing association or, as the case may be, the housing trust or the Welsh Ministers (in this subsection called “the landlord”), may be increased with effect from the beginning of any rental period by a written notice of increase specifying the date on which the increase is to take effect, and given by the landlord to the contract-holder not later than four weeks before that date.

are not housing association tenancies (as to which, see section 93 of the Rent Act 1977 (c. 42))”;

- (b) in Part 2 (periodic standard contracts), in the entry in table 4 for sections 122 to 128, in the third column (notes) after “rent is payable”, in the first place where it appears, insert “and which are not housing association tenancies (as to which, see section 93 of the Rent Act 1977 (c. 42))”.

(7) In Schedule 12 (conversion of tenancies and licences existing before commencement of Chapter 3 of Part 10), in paragraph 14(2)—

- (a) after “does not apply to”, insert “—  
(a)”;  
(b) after “rent” insert “, or  
(b) an increase in rent under section 93 of the Rent Act 1977 (c. 42).”.

### Consequential amendments to section 93 of the Rent Act 1977

6.—(1) Section 93(1) of the Rent Act 1977 (increase in rent without notice to quit) is amended as follows.

(2) In subsection (1)—

- (a) after “weekly or other periodical tenancy”, insert “but not an occupation contract”;  
(b) for “in this section”, substitute “in this subsection and subsection (2)”.

(3) After subsection (2) insert—

“(2A) Where a housing association tenancy is a secure contract or a periodic standard contract, the rent payable to the housing association or, as the case may be, the housing trust or the Welsh Ministers (in this subsection called “the landlord”), may be increased with effect from the beginning of any rental period by a written notice of increase specifying the date on which the increase is to take effect, and given by the landlord to the contract-holder not later than four weeks before that date.

(1) Diwygiwyd adran 93 gan adrannau 77 a 140 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50) a pharagraff 5 o Atodlen 10 a Rhan 2 o Atodlen 17 iddi, adrannau 77 a 152 o Ddeddf Tai 1980 (p. 51) ac Atodlen 10 ac Atodlen 26 iddi, adran 152 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988 (p. 38) a Rhan 6 o Atodlen 18 iddi, erthygl 5 o Orchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Darpariaethau Canlyniadol) 2010 (O.S. 2010/866) a pharagraffau 9 a 12 o Atodlen 2 iddo ac erthygl 2 o Orchymyn Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (Tai) (Diwygiadau) 1999 (O.S. 1999/61) a pharagraff 1 o’r Atodlen iddo.

(1) Section 93 was amended by sections 77 and 140 of and paragraph 5 of Schedule 10 and Part 2 of Schedule 17 to the Housing Act 1988 (c. 50), sections 77 and 152 of and Schedule 10 and Schedule 26 to the Housing Act 1980 (c. 51), section 152 of and Part 6 of Schedule 18 to the Government of Wales Act 1988 (c. 38), article 5 of and paragraphs 9 and 12 of Schedule 2 to the Housing and Regeneration Act 2008 (Consequential Provisions) Order 2010 (S.I. 2010/866) and article 2 of and paragraph 1 of the Schedule to the Government of Wales Act 1998 (Housing) (Amendments) Order 1999 (S.I. 1999/61).

(2B) A notice of increase given under subsection (2A) does not take effect if, before the date specified in that notice, the contract-holder gives a notice to end the contract.

(2C) But the notice of increase does take effect if, before the date specified in that notice, the notice to end the contract ceases to have effect (see section 167(3) or 172(3) of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1)).”.

(4) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

“(6) In this section, the following terms have the same meaning as in the Renting Homes (Wales) 2016 (anaw 1) (see sections 7 and 8 of that Act)—

- (a) contract-holder;
- (b) occupation contract;
- (c) periodic standard contract;
- (d) secure contract,

and “notice to end the contract” means a notice under section 163 or 168 of that Act.”.

(2B) A notice of increase given under subsection (2A) does not take effect if, before the date specified in that notice, the contract-holder gives a notice to end the contract.

(2C) But the notice of increase does take effect if, before the date specified in that notice, the notice to end the contract ceases to have effect (see section 167(3) or 172(3) of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1)).”.

(4) After subsection (5) insert—

“(6) In this section, the following terms have the same meaning as in the Renting Homes (Wales) 2016 (anaw 1) (see sections 7 and 8 of that Act)—

- (a) contract-holder;
- (b) occupation contract;
- (c) periodic standard contract;
- (d) secure contract,

and “notice to end the contract” means a notice under section 163 or 168 of that Act.”.

*Julie James*

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

13 Gorffennaf 2022

---

© Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers

13 July 2022

---

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.



£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/799>

ISBN 978-0-348-39338-5

A standard EAN-13 barcode representing the ISBN 978-0-348-39338-5.

9 780348 393385